# y dinesydd

Ebrill/Mai 2002 — PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH — Rhif 271


# "Hei dewch! Mae Caerdydd ar dân I'ch cyfarch. Cewch y cyfan"

CAERDYDD a'r Fro
Urdd 2002

Mae'r gwaith o osod y maes wedi dechrau. Mae yna faneri gyda bathodyn yr Urdd arnyn nhw yn cyhwfan yng nghanol y Ddinas. Ydi mae Eisteddfod yr Urdd Caerdydd 2002 ar fin dechrau.

I unrhyw un sy'n dal yn ansicr, yng nghaeau Cooper y bydd maes yr Eisteddfod - yng nghanol y brifddinas. Bydd y brif fynedfa ar Ffordd y Gogledd. "Ond beth am barcio?" medde chi.

Os nad ydych chi'n cludo cystadleuwyr, y cyngor gorau yw i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Does dim maes parcio penodol wedi'i neilltuo yng nghanol y ddinas - os ydych chi am ddod mewn car, yna meysydd parcio cyhoeddus y ddinas amdani. Os ydych yn cludo cystadleuwyr, defnyddiwch y maes parcio yn Lecwydd, ewch i'r rhagbrofion yn Fitzalan ac yna fe gewch fynd ar y bysus wennol i'r maes.

Bydd Eisteddfod yr Urdd eleni yn un arbennig a chofiadwy i drigolion Caerdydd a'r Fro. Ac mae angen ei gwneud yr un mor gofiadwy i weddill Cymru trwy estyn croeso brwd iddynt yn ein cymunedau. Felly, allan â'r baneri coch, gwyn a gwyrdd - mae angen sicrhau croeso lliwgar ym mhob ardal, fel bod pawb yn gwybod fod yr Eisteddfod acw eleni.

Er mai dyddiau sydd ar ôl bellach cyn yr Eisteddfod mae'r gweithgareddau lleol yn parhau.

Nos Sadwrn Mai 11 fe fydd

**Cinio a dawns**

yng nghwmni

**Caryl a'r Band**

yng Ngwesty'r Angel
- cyfle i bawb fwynhau cyn y gwaith caled yn ystod wythnos yr Eisteddfod.

## Digwyddiadau:

**Sioe Gynradd:** "Syniad Sam": Neuadd Dewi Sant, Mehefin 3-5, Tocynnau £8 a £5

**Sioe Uwchradd:** "We-hei": Neuadd Stanwell Penarth, Mai 30 a 31, Mehefin 3 a 4, Tocynnau £8 a £5

**Oedfa Bore Sul:** Pafiliwn, Mehefin 2, 10.30am

**Cyngerdd:** Côr Plant Caerdydd a Cherddorfa Ieuenctid y ddwy Sir: Pafiliwn Mehefin 5

**Cyngerdd:** Shan Cothi ac artistiaid eraill: Pafiliwn Mehefin 6

**Cymanfa Ganu:** Arweinydd - Alun Guy: Capel y Tabernacl, Yr Ais, Mehefin 9

Mae'r tocynnau ar werth: ffoniwch Swyddfa'r Eisteddfod - 029 2080 3360

**(Dyma'r rhif ffôn hefyd os ydych am stiwardio yn ystod yr wythnos)**



# Y Dinesydd

**Ebrill/Mai, Rhif 271.** **ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd, Ffôn: 029 2056 6046, ebost: lorraine@pioneerprinting.co.uk
a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Golygydd y rhifyn hwn:**
Delyth Evans

**Golygydd y rhifyn nesaf:**
Gwilym Roberts

## NEWYDDION, ERTHYGLAU, ETC.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Mehefin 2002 erbyn 19 Mai at:**
Gwilym E. Roberts, 6 Heol Wen, Rhiwbina,
Caerdydd CF14 6EF (Ffôn: 2069 3254)
e-bost: lorraine@pioneerprinting.co.uk
**neu at Gadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*:**
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754;
e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

## CALENDR

Anfonwch eitemau at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754; e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

## DOSBARTHU

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 2084 2929).

## HYSBYSEBION

**Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur.**
**Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:**
**Menna Gwyn, 41 Wingfield Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 029-2041 8270;**
**e-bost: menna@gwyn41.freeserve.co.uk)**

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE (Ffôn: 2040 4906) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

## FFURFLEN GYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..............................................................................

Cyfeiriad: ........................................................................

.............................................. Côd Post: ..................

Rhif Ffôn: .......................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos,
37 Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

**CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG I'R CYHOEDDIAD HWN**

Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT . . .


**0845 6076070**

**Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm**
cyfradd galwadau lleol

www.mentrau-iaith.com www.bwrdd-yr-iaith.org.uk www.papurau-bro.com

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 31** **Ebrill/Mai 2002**



**Ar Draws**

1. Lle i orwedd i'r teulu (5)
4. Wyt ti yn dallt? - rywsut mae'n boeth (6)
7. Daw dydd i gi hyd yn oed ar achlysur (9)
8. Gwneud gyrfa a dechrau recordio anthemau swnllyd (3)
10. Creu sagrafen allan o adnod hir (8)
13. Corff dewr yn cymeryd arfau bob yn ail (4)
15. 'Pam y ___ ___ ___ ___
 At fy ffenestr i?
 Dywed im a gollaist tithau
 Un a'th garai di?' (JMJ) (4,4,1,4)
16. Cysylltu hanner asen i ddim (4)
17. Ydi Nesta yn cael mwy o le? (8)
20. Daw llef ar yn ail o'r cwrlid (3)
21. N'ôl yn y cwch rywsut fel yn y dechreuad (9)
24. Arfoga o gwmpas y ffordd i mewn (6)
25. Lliw ar doriad dydd (5)

**I Lawr**

1. Cael llaeth o'r god yn blith draphlith (5)
2. Gweld pysgodyn yn dechrau esgyn o'r gwaelodion (3)
3. 'Duw ymddangosodd __ __ ____
 Fe gafwyd Brawd yn Brynwr' (JH) (2,1,5)
4. Torri tir ar ôl dau (3)
5. Gwrthod udo (4)
6. 'Clodus nifer __ ____
 Ac ardderchog lu'r merthyri' (WR) (1,8)
9. Llosgi pwdin o reis (5)
11. 'Canys bywiol yw gair Duw, a nerthol, a llymach nag
 un cleddyf ______.' (Hebreaid) (9)
12. A yw hon yn codi mewn ffordd fursennaidd? (5)
14. Llid ymhlith y pur (8)
15. Ffoi gyda naid herciog cyn dechrau'r cyrch (5)
18. 'Ond er mai angof angau prudd
 Ar adfail ffydd a welaf,
 Pan rodiwyf ddaear Ystrad Fflur
 O'm ____ ymdawelaf' (JGJ) (5)
19. Rhywsut crea erw (4)
22. Pwff o wynt yn codi archwaeth (3)
23. A welir hon mewn cwmni amheus? (3)

**Atebion Croesair 30**

**Ar draws:** 8. Mentraf; 9. Eryri; 10. Yfflon; 11. Iachawyr; 12. Noa; 14. Yn cadw sŵn; 17. Leuad heno; 19. Lot; 20. Mawryga; 22. Chwaer; 24. Gwely; 25. Af am dro. **I Lawr:** 1. Ymgynnull; 2. Unol; 3. Bron mynd; 4. Y Fainc; 5. Serch; 6. Mynwesol; 7. Sicr; 13. A lludw ger; 15. Diolchgar; 16. Naturiol; 18. Efallai; 20. Magl; 21. Ymyl; 23. Amdo.

Derbyniwyd 27 o gynigion, y rhif mwyaf erioed! Dim ond dau wallus oedd yn eu plith. Anfonir y tocyn llyfr i Grace Farthing, 10 Min-y-Môr, Y Barri. Roedd gormod wedi ymgeisio i enwi pawb oedd yn gywir, ar wahân i ddweud eu bod yn dod o bob cwr o Gymru..

**Cystadleuaeth Ebrill/Mai 2002**: Anfonwch eich atebion i: 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN. Atebion i gyrraedd erbyn 19 Mai 2002.

## Calendr y Dinesydd

**Llun, 13 Mai**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina yn cyfarfod ym Methany, Rhiwbina, am 7.30 p.m.
**Llun, 13 Mai**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills, Llandaf, 7.00 ar gyfer 7.30 p.m. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd: Tony Couch (Ffôn: 2075-3625; e-bost: ajcouch@yahoo.co.uk).
**Mercher, 15 Mai**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon: Sgwrs gan Owen John Thomas, AC, am y Cynulliad am 7.00 p.m.
**Llun, 20 Mai**
Cymdeithas Wyddonol Caerdydd: 'Datblygiadau mewn Delweddu Meddygol.' Darlith gan Dr Will Evans (Ysbyty'r Brifysgol), am 7.30 p.m. yn Ystafell G77, Prif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays.
**Mawrth, 21 Mai**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Noson y Llywydd (Larry Bufton), yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.15 p.m.
**Mercher, 22 Mai**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan Martin Huws, yn festri Capel Minny Street, Cathays, am 2.30 p.m.
**Llun-Sadwrn, 3-8 Mehefin**
Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Caerdydd a'r Fro.
**Mercher, 5 Mehefin**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Rhaglen dan ofal Ysgol Glantaf, yn festri Capel Minny Street, Cathays, am 2.30 p.m.
**Mercher, 5 Mehefin**
Merched y Wawr, Bro Radur: 'Allan â Ni!' Manylion pellach: Mrs Brenda Jones (029-2084-2946).
**Llun, 10 Mehefin**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Te Mefus a Noson Gymdeithasol, ym Methany, Rhiwbina, am 7.30 p.m.
**Llun, 10 Mehefin**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills, Llandaf, 7.00 ar gyfer 7.30 p.m. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd: Tony Couch (Ffôn: 2075-3625; e-bost: ajcouch@yahoo.co.uk).
**Iau, 13 Mehefin**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: 'Gwarchod y Byd.' Sgwrs gan Dr Hefin Jones, ym Methlehem, Gwaelod-y-garth, am 7.30 p.m.
**Mercher, 19 Mehefin**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan Sali Evans, yn festri Capel Minny Street, Cathays, am 2.30 p.m.
**Mercher, 3 Gorffennaf**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Te Mefus a Chyfarfod Blynyddol, yn festri Capel Minny Street, Cathays, am 2.30 p.m.

*Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754; E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).*

### Cydymdeimlo â:

- Don Baxter a'i deulu yn yr Eglwys Newydd ar golli ei wraig Rhiannon, yn Ysbyty Llandochau ar 27 Mawrth. Cynhaliwyd ei hangladd yng Nghapel Bethel, Yr Eglwys Newydd ar 8 Ebrill ac wedi hynny yn Amlosgfa'r Ddraenen.
- Heulwen Thomas a'i mab Deri a'r teulu ar farwolaeth David Thomas, Llandaf. Bu'r angladd yn Eglwys y Crwys ar Ebrill 26 ac wedi hynny yn Amlosgfa'r Ddraenen.

### Llongyfarchiadau i:

- John a Valmai Davies yr Eglwys Newydd ar ddathlu eu Priodas Aur.
- John ac Angharad Townley, Grangetown ar enedigaeth Dewi Iestyn, brawd bach i Bryn.
- Geraint Tilsley, Bae Caerdydd, gynt o Wrecsam ar ei briodas â Miriam Jones, Y Gaiman, Patagonia yng Nghapel Bethel, Y Gaiman ar 30 Mawrth. Aeth 26 o deulu a ffrindiau Geraint draw i'r briodas. Byddan nhw'n ymgartrefu yn y Bae.
- Iolo Evans (gynt o Radur) a Rachel (Eden) ar eu priodas yn yr Eglwys Farmor, Bodelwyddan, Ddydd Sadwrn, Ebrill 13. Maent wedi ymgartrefu yn Nhreganna.
- Wyn Mears, Y Ddraenen, Caerdydd ar eu benodiad fel Pennaeth Cymdeithas y Cyfrifyddion Cofrestredig Siartredig yng Nghymru. Cyn hynny bu'n gweithio ym myd Twristiaeth ac wedi hynny bu'n gweithio i'r BBC cyn sefydlu ei gwmni ei hun yn y byd marchnata.
- Betsan Powys oedd enillydd gwobr Darlledwraig y Flwyddyn a phrif wobr Newyddiadurwraig y Flwyddyn yn seremoni Gwobrau'r Cyfryngau Cymreig BT yng Nghaerdydd.
- Yn ddiweddar bu Nia Parri, cyflwynwraig cyfres rhaglenni dysgu Cymraeg S4C "Welsh in a Week" yn cyflwyno tystysgrifau i 17 o weithwyr y Cwmni ar ôl iddyn nhw astudio am NVQ Cymraeg lefel 1 a 2. Eu tiwtor oedd Siwan Mathews o Brifysgol Morgannwg.
- Julia Burns, Yr Eglwys Newydd, pennaeth yr Adran Gymraeg yn Ysgol Uwchradd Illtud Sant, Caerdydd, ar gael ei hethol yn Llywydd Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru am y flwyddyn 2002/3.
- Dylan Jones ar ei benodi'n Gyfarwyddwr Datblygu i Elusen Dolen Cymru. Cyn hynny, bu'n swyddog gyda'r NUT.

### Symud Ymlaen

Ar ôl bron i naw mlynedd fel Prif Weithredwr Plaid Cymru yn Nhŷ Gwynfor, Caerdydd, mae Karl Davies, 38 oed, gynt o Abergele, yn ymadael â'i swydd ym mis Mai i fod yn Gyfarwyddwr Cymru o Undeb y Prifathrawon (AHT). Fe'i addysgwyd yn Ysgol Glan Clwyd a Choleg y Brifysgol Aberystwyth lle bu'n Llywydd Undeb y Myfyrwyr Cymraeg. Yna, bu'n Gadeirydd Cymdeithas yr Iaith. Ymunodd â Phlaid Cymru dros ugain mlynedd yn ôl a bu'n ymchwilydd seneddol yn San Steffan rhwng 1985 a 1989.

### Diolchiadau

Diolch o galon i Gymdeithas Gymraeg Rhiwbina, Eglwys Undodaidd West Grove a nifer o unigolion am eu rhoddion hael yn ddiweddar i goffrau'r *Dinesydd*. Heb roddion cyson fel hyn, ni fyddai modd cynnal y papur.

### Marged Jones

Llongyfarchiadau i Marged Jones ar ei llwyddiant cerddorol diweddar. Enillodd Marged, sy'n 13 oed ac yn ddisgybl ym Mlwyddyn 8 Ysgol Gyfun Glantaf, gystadleuaeth *Cerddor Ifanc y Flwyddyn 2002* a drefnir gan Gerddorfa Ysgolion Uwchradd Caerdydd a Bro Morgannwg. Marged yw blaenwr adran cellos y gerddorfa ac yn ogystal â'r tlws a gwobr ariannol cafodd yr anrhydedd o berfformio'r darn a enillodd y gystadleuaeth iddi (*Allegro Appassionato* gan Saint-Saens) yng nghyngerdd Pasg y gerddorfa yn Neuadd y Ddinas.



## Eich Barn?

**Cell Caerdydd, Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Y Rhath, Caerdydd**

Annwyl Olygydd,
Sawl un o ddarllenwyr *Y Dinesydd* sydd wedi clywed y sibrydion sydd ar led fod Cyngor Sir Caerdydd eisiau newid ei gynllun iaith? Ymhlith y newidiadau arfaethedig, yn ôl pob sôn, y mae newid diwyg y *Capital Times* - gan leihau'r elfen Gymraeg a chanolbwyntio'r storïau Cymraeg ar rai agweddau megis Addysg Gymraeg, yr Urdd ac ati. Er ceisio'n galed i gael cadarnhad na fydd hyn yn digwydd nid yw Bwrdd yr Iaith na'r Cyngor Sir wedi gwadu'r sibrydion o gwbl - ond gwnaethant gyfaddef fod trafodaethau'n digwydd!

Pendraw hyn fydd rhoi'r Gymraeg yn ôl yn ei bocs - rhywbeth i'r Cyngor Sir ddefnyddio ar achlysuron arbennig megis cais Caerdydd 2008. Gall ddylanwadu ar ddyfodol *Y Dinesydd* gan y bydd yr un storïau'n cael eu cario yn y ddau gyhoeddiad (er mai 'spin' y Cyngor fydd ar un ohonynt).

Gaf i ofyn i'ch darllenwyr gysylltu'n ddi-oed â Chyngor Caerdydd (2087 2000) a gofyn am y Swyddog Iaith ac â Bwrdd yr Iaith (2087 8000) i ofyn am eglurhad, gan eu hatgoffa mai normaleiddio'r Gymraeg yw'r nod nid ei hymylu a'i chyfyngu i'r 'pethe' yn unig. Mae'n anodd deall sut mae'r Cyngor yn gallu ystyried gwneud hyn tra eu bod hefyd yn gwneud cais am statws Prifddinas Diwylliant Ewrop 2008!

Yn gywir
**Muiris Mag Ualghairg**
Cadeirydd Cell Caerdydd

## Cwmni Dawns Caerdydd

Mae'r tymor dawnsio wedi dechrau ynghyd â holl brysurdeb y cyfnod - cyngerdd yn y Bontfaen yr wythnos ddiwethaf ar gyfer y gymdeithas efeillio. Mae'r plant yn dawnsio erbyn hyn. Pwy fyddai'n meddwl y byddai Esther Martin yn dawnsio yn absenoldeb ei mam ac OG, mab Gogs yn camu fel hydd dros lawr y ddawns, a Lowri ni yn siôl Siân Owen yn trin y Ffrancwyr. Mae amser yn hedfan!

Ond mae'r hen glunhercwyr yn dal i droedio ma's a chael hwyl wrth fynychu gwyliau. Mae gŵyl Treffynnon ar y gorwel ac mae'n siwr y byddwn yn codi'r Pawl Haf yn Sain Ffagan. Hwyrach yr awn i gystadlu yn Nhŷ Ddewi, neu efallai y caiff yr ieuenctid gystadlu dan 25 oed. Dw i'n credu mod i braidd yn hen i fflyrtan ar lwyfan gyda chroten ddwy ar hugain oed. Er ... wn i ddim chwaith!

Mae ein gŵyl ganol haf, Gŵyl Ifan, unwaith eto'n prysur agosau, a'r trefniadau bron ar ben. Mae yna newidiadau, defnyddio'r cychod i ddod nôl i'r ddinas o'r Bae, teithiau gwahanol i'r arfer, timoedd tramor a heulwen gobeithio. Cynhelir yr ŵyl ar benwythnos Mehefin 21 - 23. Gobeithio y daw trigolion egniol Caerdydd i ymuno â ni yn y twmpath ar y nos Wener. Am wybodaeth bellach cysylltwch â: Dai James, 50 Prospect Drive, Llandaf, Caerdydd (02920 563989).

Gyda llaw, ces y fraint o alw twmpath i gloi'r Eisteddfod Ryng-golegol. Dyma noson y bydd y Taplaswyr a finnau yn ei chofio am flynyddoedd. Cafwyd dawnsio di-baid â Dai yn cwyno bod ei fysedd yn rhacs ar ôl chwarae cymaint ar y gitâr. Roedd pawb mewn hwyliau anhygoel. Diolch o galon i'r trefnwyr a llongyfarchiadau i Gym Gym Caerdydd ar ennill yr Eisteddfod. Diolch personol i fechgyn JMJ Bangor am ei gwneud yn noson grêt.

Ymlaen â'r ddawns,
**Rhodri Jones**

## Trigain Mlynedd o Fywyd Priodasol

Llongyfarchiadau i Gwyn a Gwenllïan Jones, Yr Eglwys Newydd, ar ddathlu eu priodas ddiemwnt ddydd Sadwrn, 6 Ebrill 2002. Bydd enw D. Gwyn Jones yn gyfarwydd i genedlaethau o blant fel awdur a golygydd yr enseiclopedia, Chwilota, gwaith a gyflawnodd ynghanol prysurdeb ei waith fel pennaeth Bwrdd Arholi'r Cyd-Bwyllgor Addysg; ac mae Gwenllïan hithau yn awdur nifer o lyfrau i blant.
Roedd y ddau yn nabod ei gilydd yn dda o ddyddiau'r ysgol, er eu bod yn byw un bob pen i ardal Pontypridd – Gwyn o Gilfynydd ac yn mynychu Ysgol Ramadeg y Bechgyn ym Mhontypridd a Gwenllïan o Lan-bad (Upper Boat) ac yn mynychu Ysgol Ramadeg y Merched yn Nhrefforest. Y pryd hwnnw eu hunig gysylltiad – ar wahân i lythyrau! – oedd rihyrsals bob yn ail nos Lun yn y gaeaf ar gyfer Cymanfa Ganu plant a ieuenctid eglwysi'r Hen Gorff yn ardal Pontypridd ar ddydd Mawrth y Pasg.

Yn 1942 cafodd Gwyn dridiau o seibiant o'r Fyddin dros y Pasg cyn mynd i'r Dwyrain Canol i geisio cael gwared â Rommel, a phenderfynodd y ddau, gan eu bod yn nabod ei gilydd mor dda bellach, briodi heb fawr o rybudd i neb! Ychydig o'r ymladd a welodd Gwyn gan iddo gael ei glwyfo'n dost ym Mrwydr El Alamein, a gorfod gadael i Monty goncro Rommel heb ei gymorth ef!



## Lansio Nofel Gyntaf

Daeth llond stafell o bobl i'r Eglwys Norwyaidd ym Mae Caerdydd ar Ebrill 18 i lansio nofel gyntaf Mari Emlyn, merch ifancaf Owen Edwards a'r diweddar Shân Emlyn. Croesawyd pawb gan Bethan Mair, Gwasg Gomer, a chafwyd geiriau pwrpasol gan Mererid Hopwood, ffrind agos i Mari ers eu dyddiau ysgol ym Mryntaf a Llanhari. Darllennodd Mari ran allan o'r nofel a diolchodd i bawb am ddod i'w chefnogi. Derbyniodd y nofel *Cam wrth Gam* ganmoliaeth uchel yng nghystadleuaeth y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych. Mae'r nofel ar werth mewn siopau llyfrau Cymraeg a'r pris yw £5.95.


Mae

**Cymdeithas Golff y Ddinas**

yn trefnu Cystadleuaeth nesaf y gymdeithas ar gwrs golff Garnant ar 28 Mai. Mae'r gost yn £23 y pen i chwaraewyr sydd yn Gymry Cymraeg neu'n ddysgwyr ac hefyd mae angen Cychwyniad swyddogol nid mwy na 28! Mae na le i ond 30 chwaraewr ac mae gwybodaeth bellach ar gael oddi wrth naill ai : Dafydd Hampson-Jones ar 20394021 (S) neu Wyn Mears ar 2075 8726 (C).

# Newyddion o'r Eglwysi

## Eglwys Dewi Sant Caerdydd

Yng nghanol llymder cyfnod y Garawys cafwyd llygedyn o brydferthwch dros un penwythnos i **ddathlu Gŵyl Nawddsant yr eglwys a Chymru**. Nos Wener, cafwyd Offeren ar Gân, gydag Archesgob Cymru yn pregethu. Canwyd Offeren Dewi Sant gan Geraint Lewis, ac anthem gan y côr o dan arweiniad David Leggett a Royston Havard wrth yr organ. Bu hefyd yn gyfle i'r Archesgob fendithio baner newydd y plwyf. Yn ystod y bwffe yn dilyn y gwasanaeth cyflwynodd y ficer, Meurig Llwyd, siec ar ran yr eglwys i'r Archesgob i'w Gronfa er budd plant Cymru. Nos Sadwrn, cynhaliwyd cyngerdd gan Gôr Meibion Parc yr Arfau a Band Heddlu De Cymru er budd Samariaid Caerdydd ac ar y nos Sul, ein pregethwr gwadd oedd Dafydd Elis Thomas.

**Ddydd Gwener y Groglith**, daeth eglwysi Cymraeg y ddinas ynghyd i wrando ar neges Yr Esgob Barry. Wedi'r oedfa, bu mintai'n dilyn y groes ar hyd un o brif strydoedd y ddinas cyn dychwelyd i'r eglwys. **Noswyl y Pasg**, cynheuwyd cannwyll y Pasg y tu allan i'r eglwys a'i chario i mewn i'r eglwys dywyll ar ddechrau'r gwasanaeth. **Fore'r Pasg** cynhaliwyd Offeren ar Gân. Cynorthwywyd y ficer yn ystod gwasanaethau'r Wythnos Fawr gan Deiniol Morgan a fydd yn cael ei ordeinio ym Mangor yn ystod yr haf ac a fydd yn gwasanaethu yno fel curad.

## Eglwys y Crwys

Daeth **Rhaglen Cylch y Chwiorydd** i ben ddydd Mercher Mawrth 20, pryd y cafwyd cwmni i de prynhawn nifer o aelodau sy'n methu bod yn bresennol yn yr oedfaon arferol. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd etholedig Mrs Sali Davies a chafwyd anerchiad byr gan y Gweinidog y Parchedig Glyn Tudwal Jones ar y testun Taith i'r India.

Yng nghyfarfod diwethaf y **Grŵp Merched**, y siaradwr gwâdd oedd y Gweinidog a chafwyd sgwrs amserol ganddo ar le Mair Magdalen yn stori'r Wythnos Fawr. Fe'i cyflwynwyd gan y Cadeirydd, Mrs Babs Evans, a diolchwyd iddo gan Mrs Ann Innes.

**Y Gymdeithas Ddiwylliannol** fu'n gyfrifol am drefnu oedfa gymun ar fore'r Groglith ac aelodau'r Gymdeithas a gyflwynodd y rhannau arweiniol. Y Gweinidog a arweiniodd gynulleidfa deilwng iawn at fwrdd y cofio.

Nos Sul, Mawrth 24 cafodd yr eglwys gyfle i fyfyrio ar neges y Pasg yng nghwmni aelodau'r **Gymdeithas Ddrama**. Cafwyd perfformiad grymus ganddynt o'r digwyddiadau cyn ac ar ôl y croeshoeliad mewn drama o waith Ivy Williamson a Sylvia Smith a gyfieithwyd i'r Gymraeg gan Myfanwy Jarman ac Alys Jones.

Yn ystod Mis Chwefror bedyddiwyd dau o blant yr Eglwys, **Cara Lleucu**, merch Nicholas a Nia Gwenllian Bennett, 18 Ffordd Balaclava, Y Rhath, a **Tomos Wyn** mab Ian a Mari Herbert, 5 Heol Syr David, Pontcanna. Yna, ganol Mawrth, gweinyddwyd bedydd **Deiniol Robert Thomas**, mab Ian Robert Knight a'i briod Sally Elizabeth o 7, St Alban Ave, Llwynbedw.

## Tabernacl

Llongyfarchwn **Marion ac Emlyn Davies** ar ddathlu eu priodas ddeiamwnt ar Ebrill 4. Bu'n briodas hapus â'r naill yn gefn i'r llall ar hyd y daith.

Bu'r **Gyngerdd Flynyddol** yn llwyddiant eithriadol ac mae'r diolch pennaf i'r arweinydd, Euros Rhys Evans. Rhaid diolch hefyd i Rob Nicholls a Huw Thomas am eu gwaith ac i Eirwen Davies a'r côr adrodd am eu cyflwyniad graenus. Gwerthfawrogwyd cyfraniad yr unawdwyr, sef Rhian Williams, Iona Jones, Robyn Lyn a Huw Euron, y gerddorfa ac aelodau'r côr yn enfawr.

Soniwyd eisoes fod y **Tabernacl wedi gefeillio** gydag eglwys yn Estonia. Bellach, derbyniwyd llythyr oddi wrth Eerik Rahkema, gweinidog yr eglwys Fedyddiedig yn Haapsula (tref ar arfordir gorllewinol y wlad gyda phoblogaeth o 14,000).

Bydd **Côr Cambrensis** yn cyflwyno eu dathliad Cristnogol yn Neuadd Dewi Sant ar Mai 18, 7.30, gan groesawu gwesteion o Orlando, Fflorida - trio lleisiol o'r enw 'Twenty 4 Seven'. Gellir archebu tocynnau o swyddfa'r neuadd.

Cynhaliwyd **Cyfarfodydd Blynyddol y Senana** yn y Tabernacl ar Ebrill 10. Eleni anrhydeddwyd Mrs Beryl Hall, Ysgrifennydd y Tabernacl â'r is-lywyddiaeth.

## Salem, Treganna

Llwyddiant mawr oedd **llogi Canolfan Hamdden** y Tyllgoed eto eleni ar gyfer Prynhawn Sul o chwaraeon i aelodau a ffrindiau Salem (egniol i rai, llai egniol i eraill!). Roedd pawb wedi mwynhau'n fawr, ac fe gawsom wasanaeth byr yno cyn ffarwelio.

Bu **dathlu Gŵyl Ddewi** yn llwyddiant eto eleni - cafwyd gwledd o gawl blasus yn dilyn ein gwasanaeth arbennig. Cafwyd swper arbennig hefyd yng Ngwesty'r Churchills.

Her ieuenctid y capel eleni yw rhoi **'Changing Rooms'** ar waith yn un o'r ystafelloedd yn y cefn a'i throi'n ystafell liwgar, fywiog y gellir ei defnyddio i gynnal nifer o weithgareddau. Cliriwyd yr ystafell yn barod, a'r her erbyn diwedd y flwyddyn fydd dewis lliwiau, prynu celfi modern Ikea... ry'n ni gyd yn edrych 'mlaen i'w gweld! Croesawn 5 o **aelodau newydd** i'n plith yn ystod y mis hwn.

Cawsom oedfaon bywiog dros **y Pasg** a chynhaliwyd oedfaon arbennig nos Iau Cablyd, a dydd Gwener y Groglith.
Bedyddiwyd **Gwenllian Kathe Evans**, merch Nona a Matthew Gruffudd-Evans yn Salem yn ddiweddar, wyres i Gwen a Hywel Evans a Heini a Linda Gruffudd, gor-wyres i'r Dr J Gwyn Griffiths. Cafwyd gwasanaeth arbennig gan blant a phobl ifanc Salem.

Cydymdeimlwn yn fawr â **Gwyneth Harbourne**, Llandaf a gollodd ei mam, Mrs Olwen James, yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion cynhesaf atynt fel teulu yn eu colled.

## Minny Street

Y Sul cyntaf o Fawrth a chyfle i'r Ysgol Sul gyflwyno gwasanaeth arbennig i ddathlu **Gŵyl ein Nawddsant** ar lafar a chân. Wythnos yn ddiweddarach, buom yn dathlu Sul y Mamau yn oedfa gynnar yr Ysgol Sul ac yna aelodau a chyfeillion Rhiwbina (ynghyd â'r Gweinidog) yn ein harwain yn yr oedfa hwyrol ar y thema Duw a'r Greadigaeth. Ein Gweinidog fu'n ein tywys drwy oedfaon **Sul y Pasg** gydag oedfa Gymun yn y bore. Wrth i'r Ysgol Sul barhau i gynnal **oedfa foreol** ychwanegol yn fisol, braf gweld cynifer o deuluoedd yn dod at ei gilydd am 9:30 ar y Suliau yma. Nos Sul Ebrill 14 bu nifer o aelodau a chyfeillion iau yr Eglwys yn ein tywys mewn gwasanaeth wedi ei drefnu gan Hefin Jones ar y thema "Rhannu'r Neges" gyda Hefin Jones arall (Pontarddulais) yn sôn am yr amser a dreuliodd ar gwrs Dysgu mewn Cenhadaeth yn Ne'r Affrig ac India.

Croeso cynnes i Mrs **Sally Evans** (Penylan) a'i merch Mrs **Catrin Macdonnell** (Bryste) ddaeth atom yn aelodau yn oedfa Gymun nos Sul Mawrth 3. Ac yn yr oedfa foreol Mawrth 10, hyfrydwch oedd cael tystio i fedydd **Aled Huw**, mab bach Nia a Rhys Evans (Parc y Rhath) a brawd Ifor.

Yma fore Sul Ebrill 7, cawsom y fraint o dystio bedydd **Mali**, merch fach Sioned ac Andrew Nash (Rhiwbina) a **Tomos Randal**, mab bach Catrin a Simon Macdonnell (Bryste). Dymunwn yn dda i'r teuluoedd oll.

### Bethel Rhiwbina

Bu dosbarth iau yr Ysgol Sul yn cymryd rhan mewn gwasanaeth arbennig ar Sul y Blodau a braf oedd eu gweld nhw i gyd ar y llwyfan. Y plant wedyn yn cael hwyl wrth wrando ar stori gan y Gweinidog, y Parchedig T. Evan Morgan. Ac yn ystod wythnos y Pasg croesawodd Evan ddeugain o ddisgyblion o Ysgol Melin Gruffydd i Fethel. Bu'n sôn wrthynt am arwyddocad y Pasg, am waith y capel yn gyffredinol a hynny mewn modd hynod o ddifyr.

Croesawyd tri aelod newydd yn ddiweddar - **Ken a Hazel Williams**, Rhiwbina ac **Alf Evans**, Llanisien. Roedd nifer dda o'r aelodau, yn ogytal â chyfeillon yr achos yn y Swper Gŵyl Ddewi a gynhaliwyd eleni yng Ngwesty'r Village yn Coryton. Mwynhawyd y bwyd, y gwmnïaeth ac anerchiad hwyliog y Gweinidog.

Trist iawn oedd y newydd am farwolaeth Mr **Bill Owen**, Heol Llanisien Fach. Bu Bill yn ffyddlon iawn i Fethel am flynyddoedd lawer. Cydymdeimlir â Joan a gweddill y teulu.

Gwerthwyd nwyddau Traidcraft yn ystod y bore coffi, Mawrth 12, ac anfonwyd siec am £85 i'r Ganolfan Masnachu Teg.

### Ebeneser Caerdydd

Cynhaliwyd ein **Cyfarfodydd Pregethu Hanner Blynyddol** ar 9 - 10 Mawrth o dan arweiniad grymus ein cyn-weinidog Dr Geraint Tudur, Bangor. Hyfrydwch digymysg oedd cael ei groesawu yn ôl atom.

Nos Fawrth, 12 Mawrth cynhaliwyd **cyngerdd yn Ebeneser** er budd Apêl Arch Noa - Ysbyty Plant Cymru, gan Côrdydd o dan arweiniad Sioned James, cyfeilydd Branwen Gwyn. Cafwyd cyfraniadau hefyd gan aelodau Ebeneser, sef Gruffydd Glyn, Arwel ac Eleri Peleg Williams a Siân a Sandra Semmens a gwerthwyd trefniadau blodau hyfryd Mrs Rosaline Bowen er budd yr elusen. Diolchwyd i bawb am eu cefnogaeth gan Dr Emrys Evans - un o ymddiredolwyr yr Apêl. Gwnaed elw o dros £500.

Cynhaliwyd **Cymanfa Ganu'r Annibynwyr** yn Ebeneser ar Sul y Blodau 24 Mawrth o dan arweiniad Elin Maher, Mynydd Seion, Casnewydd ac i gyfeiliant Cedric Jones. Yr oedd naws hyfryd i'r oedfa a phlant yr Ysgol Sul wedi dysgu eu penillion ar eu cof. Yn dilyn yr oedfa cafwyd paned a theisenau croes toes poeth yn y festri.

Mae **www.beibl.net** yn aralleiriad cwbl wreiddiol o'r Testament Newydd ac yn ffrwyth gwaith enfawr gan Arfon Jones, Swyddog Maes Gobaith i Gymru (GIG) i gyflwyno'r Testament Newydd mewn iaith lafar syml. Nid yw'n ddiwygiad o unrhyw fersiwn Cymraeg, nac yn gyfieithiad o unrhyw fersiwn Saesneg. Syrffiwch y we i'w ganfod yn y cyfeiriad uchod. Diolch i Arfon am ei waith arloesol. Gweinidogaeth heb os nac oni bai.

Cynhelir **Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg** eleni yng Nghaerdydd ar Mehefin 27 - 29. Lleolir y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd a'r cynadleddau ar Gampws yr Athrofa ar Heol Cyncoed. Ond ar y dydd Sadwrn, cynhelir Oedfa'r Llywydd yn Ebeneser, Heol Siarl pryd y neilltuir Geraint Tudur yn Llywydd yr Undeb am y flwyddyn.

### Enfys Caerdydd a Bro Morgannwg

Cynhelir Gwasanaeth Cymun Bendigaid yn ôl trefn Eglwysi Cyfamodol ENFYS i ddathlu'r Cyfamod am Undeb Gristnogol yng Nghymru yn yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig, Maes Winsor, Caerdydd am 6 pm, Mehefin 2. Pregethir gan Y Parchedig Ddr Sion Aled Owen, Ysgrifennydd Cyffredinol Enfys.

# YSGOL GYFUN BRO MORGANNWG

### Taith Sgio

Bu 62 o ddisgyblion Blwyddyn 8 a naw athro ar daith sgio i Awstria. Dyma daith dramor gynta'r ysgol a bu'n llwyddiant ysgubol. Nid datblygu sgiliau sgio'n unig oedd y nod. Tasg ychwanegol i'r disgyblion oedd cwblhau eu dyddiaduron Almaeneg ac ymarfer yr iaith â'r brodorion. Diolch i Mr Chidley am drefnu taith fythgofiadwy.

### Taith Gerdded Walkathon

Daeth Glenda Meakin o Sefydliad y Galon Brydeinig i'r ysgol yn ddiweddar gyda'r newydd fod Rhian Dowse Bl. 7 wedi ennill gwobr am yr unigolyn ar y Walkathon a gododd y swm uchaf o arian, sef £260, drwy holl deithiau cerdded Prydain Fawr.

### Chwaraeon

**Pêl Droed:** Bl.7 - Chwaraewyd 12 gêm gan y tîm yng nghynghrair Caerdydd a'r Fro gan ennill pob un. Yn y gêm ddiweddaraf yn erbyn Plasmawr, enillodd Ysgol y Fro o 5 gôl i 3 pan sgoriodd Ross Weekley dair gwaith i roi cyfanswm personol iddo o 16. Mae'r bechgyn wedi cyrraedd rownd derfynol cwpan Caerdydd a'r Fro.

Bl. 8 - Maent hwy ar frig yr adran hefyd ar ôl chwarae 9 gêm , ennill 6, 2 gêm gyfartal a cholli 1. Prif sgoriwr y tîm yw Glenn Welsh gyda chyfanswm personol o 6 gôl.

**Pêl fasged:** Gorffennodd y tîm pêl fasged yn ail yn y gynghrair. Maent hefyd wedi cyrraedd rownd derfynol cwpan Caerdydd a'r Fro, a cholli mewn gêm agos yn erbyn Y Bontfaen. Prif sgoriwr y tîm gydag 83 pwynt yw Lloyd Roberts.

**Gymnasteg:** Daeth y tîm gymnasteg yn ail yng nghystadleuaeth Caerdydd a'r Fro. Aelodau'r tîm oedd Sophie Richards, Sophie Grisdale, Kate Galea a Shannon Haswell. Llongyfarchiadau hefyd i'r tîm fu'n fuddugol ac a fydd yn cynrychioli'r Sir yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym mis Mehefin.

### Adeiladau Newydd

Diolch i ddyfalbarhad yr adeiladwyr, fe orffennwyd adnewyddu llawr ucha'r ysgol a bellach mae gennym 6 ystafell ysblennydd ar gyfer dysgu mathemateg.

### Diwrnod Cenedlaethol y Llyfr

I ddathlu'r diwrnod trefnwyd cystadleuaeth ar gyfer blwyddyn 7 i greu cywaith ar unrhyw awdur. Yn fuddugol roedd Sophie Spillane o 7b gyda'i chywaith ar Fiona Cummings a'i llyfrau Y Clwb Cysgu Cwl. Llongyfarchiadau mawr iddi.

### Llongyfarchiadau i:

Marged Hall Bl. 7 ar ennill lle yng Ngherddorfa Plant Prydain.
Martha Clarke Bl. 8 ar gael ei dewis i gynrychioli De Cymru mewn Traws Gwlad yn ddiweddar.

Dymuniadau gorau i holl blant yr ysgol fu'n cystadlu yn Eisteddfod Sir yr Urdd. Dyma gyfle cyntaf yr ysgol i gystadlu a phob lwc i'r saith grŵp a fydd yn cynrychioli'r ysgol a'r Sir yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd.

# Plasmawr

## Cyfraniad Blwyddyn 12 i Apêl Arch Noa

Cafodd Blwyddyn 12 darged i godi dros £1,000 ar gyfer Apêl Arch Noa. Trefnwyd noson o gemau a chystadlaethau a disgo ar gyfer Blwyddyn 7 a chodwyd dros £100. Gwerthwyd rhosynnau ar ddiwrnod Sant Ffolant a chodi tua £50. Cynhaliwyd noson ddiwylliannol i'r Chweched ar nos Wener pan fuom yn coginio bwyd Mecsicanaidd, chwarae Twister am dri o'r gloch y bore, dysgu Ninjitzu am bedwar o'r gloch a gwylio fideos am bump o'r gloch. Llwyddwyd i godi dros £600 sy'n gwneud cyfanswm o dri chwarter y targed. Ymlaen yn awr am y mil. (Anthony Boden, Blwyddyn 12)

## Crwydro'r Capeli

Ym mis Mawrth aeth disgyblion blwyddyn 7 Plasmawr i ymweld â chapeli ac eglwysi o gwmpas Caerdydd. Aethom i gapel Salem, Treganna lle bu gweinidog Salem yn trafod y Pasg a chawsom anrhegion o ŵy bach a chroes palmwydd ganddo. Y lle nesaf aethom i'w weld oedd Eglwys Sant Ioan lle buom yn siarad am y Fedyddfa, Darllenfa a'r Pulpud sef rhannau hynod o bwysig yn yr eglwys. Yna, fe symudon ni ymlaen i Eglwys Gadeiriol Llandaf lle buom yn astudio'r hen ffenestri lliw sydd yn cyflwyno storiau o'r Beibl. Ar ôl darllen am y pethau hyn a'u hastudio yn yr ysgol, roedd ymweld â'r llefydd yn gwneud i bopeth wneud mwy o synnwyr i mi. (Erin Dafydd, Blwyddyn 7)

## Dathlu Diwrnod y Llyfr

Mewn gwasanaeth i'r ysgol gyfan, bu nifer o athrawon yn darllen pytiau o'u hoff lyfrau a darllenodd Shirelle Mathews a Siôn Brown Bl. 8, gerddi Cymraeg a Saesneg. Cafwyd cyfle hefyd i wobrwyo disgyblion sydd wedi gwneud cynnydd o ran darllen yn yr ysgol. Gwobrwywyd y disgyblion a enillodd yng Nghwis Llyfrau'r Llysoedd sef Heledd Watts Bl. 7, Steffan Ellis Jones Bl. 8 a Ffion Rolph Bl. 9, a'r llys buddugol oedd llys Nantlais!

Yn ystod amser cinio ar y diwrnod hwnnw cynhaliwyd cystadleuaeth lle roedd rhaid dyfalu pa athro sy'n darllen pa lyfr. Hawdd oedd dyfalu mai Miss Pursglove sy'n darllen llyfr am Tom Cruise!

## Taith i Wlad Belg

Hanner nos, nos Fercher Mawrth 20fed, ymgasglodd 50 o ddisgyblion blwyddyn 9 a phedwar athro ym maes parcio Plasmawr er mwyn cychwyn ar daith hanes i Wlad Belg. Wedi croesi i Calais a theithio i Wlad Belg, tua hanner awr wedi naw y bore cyraeddasom Hill 62 a Sanctuary Wood. Yno mae hen ffosydd ac amgueddfa sy'n llawn deunyddiau ac offer o'r Rhyfel Byd Cyntaf. Cawsom gyfle i fynd i mewn i'r ffosydd a cherdded o gwmpas. Aethom ymlaen i fynwent Tyne Cot sef y fynwent fwyaf o filwyr y gymanwlad. Fe gafodd pawb sioc o weld maint y fynwent; ceir 11,956 o feddau yno yn ogystal â 34,957 o enwau ychwanegol sydd ar y wal gefn.

Yn dilyn hyn aethom i Ypres i ymweld â'r Menin Gate a'r amgueddfa fodern 'In Flanders Fields'. Un o uchafbwyntiau'r daith oedd ymweld â mynwent 'Artillery Wood' lle mae'r bardd Hedd Wyn wedi'i gladdu. Ar ôl pryd bwyd yn Pizza Hut a noson mewn gwesty yn Ostend fe adawon ni Ostend a theithio i Bruges i siopa a chael cinio. Yn ôl ar y bws wedyn a chyrraedd Plasmawr am ddeg nos Wener, Mawrth 22ain ar ôl dau ddiwrnod hynod o gofiadwy a blinedig! (Criw Blwyddyn 9)

## Llongyfarchiadau

- i Hannah Richards o flwyddyn 11 sydd wedi cael ei dewis i fod yn aelod o Theatr Genedlaethol Ieuenctid Cymru,
- i Gwenan Harries o flwyddyn 9 am gael ei dewis i garfan pêl-droed Cymru o dan 14,
- i Roxanne Lewis o flwyddyn 9 am gael ei dewis i garfan rygbi Cymru o dan 16,
- i Rhys Thomas o flwyddyn 8 sy'n bencampwr nofio Prydain o dan 16.

Llongyfarchiadau mawr i bawb a gystadlodd yn Eisteddfod Sir yr Urdd a phob lwc i'r rhai fydd yn cynrychioli'r ysgol yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd.

# Glantaf

## CYSTADLEUAETH IOLO MORGANNWG

Llongyfarchiadau i'r disgyblion a ddaeth i'r brig yng nghystadleuaeth farddoniaeth Iolo Morgannwg yn ddiweddar. Bl 7. 1af Siôn Davies, 3ydd Nerys Williams. Bl 8 a 9. 1af Ifan Gwilym, 2il Elin Roberts 3ydd Marged Jones ac Alun Blacker. Bl 10 ac 11. 1af, a 'Bardd Cystadleuaeth Iolo Morgannwg' Rhodri ab Owen, 3ydd Lowri Morgan. Bl 12 a 13. 1af Iwan Rheon. Y Triban 1af Rhys ab Owen.

## NASA

Treuliodd Rachel Busfield, Amy Carew a'u hathrawes Cemeg Dr. Judith Bonello bythefnos yn yr Unol Daleithiau dros wyliau'r Pasg ar ôl i Rachel ac Amy ennill cystadleuaeth dan nawdd NASA.

## RAS HWYL

Ar ddiwedd tymor y gwanwyn cynhaliwyd Ras Hwyl i'r ysgol gyfan er mwyn coffau dau gyn-ddisgybl ifanc, Owain Richards a Stuart Johnson, a fu farw yn ystod y flwyddyn. Ar ddiwrnod gwych o wanwyn braf oedd gweld yr ysgol gyfan yn cymryd rhan a llawer ohonynt, yn ddisgyblion ac athrawon, wedi gwisgo lan ar gyfer yr achlysur. Mawr fu'r dyfalu pwy oedd tu fewn i'r gwisgoedd cŵn du a gwyn a'r gwisgoedd clown! Roedd yn ddiwrnod i'w gofio a chodwyd dros £4000 tuag at elusennau Epilepsi a Diabetes.

## LLONGYFARCHIADAU

- i'r disgyblion a enillodd ysgoloriaethau a gwobrau i astudio mewn prifysgolion a cholegau y flwyddyn nesaf.

Coleg Prifysgol Cymru Aberystwyth - Gwenllian Glyn, Siwan Dafydd, Llion Marc, Geraint Jones, Catrin Passmore ac Elin Rowlands.
Coleg y Brifysgol Abertawe - Sara Canning.
Yr Academi Cerdd Brenhinol - Daniel Trodden.
Coleg y Drindod - Bethan Evans.

- a dymuniadau da i holl ddisgyblion yr ysgol fydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd ym mis Mehefin.
- i Alister Mcdonald ar ennill cap i dim rygbi dan 18 Ysgolion Cymru.



## HENRY EVANS

Profodd yr ysgol golled fawr yn ddiweddar ym marwolaeth ddisymwth Henry Evans, un o'r athrawon Technoleg. Cofiwn amdano fel un diymhongar, annwyl a pharod ei gymwynas a gwelwn ei eisiau yn fawr. Cydymdeimlwn yn ddidwyll gyda'i wraig Sylvia a'r plant.

## MEINWEN GUY

Tristwch mawr oedd clywed am farwolaeth Meinwen Guy a fu yn athrawes yn Adran y Gymraeg am nifer o flynyddoedd. Cofiwn amdani fel athrawes amryddawn oedd â'r ddawn i ysbrydoli disgyblion. Mae ein cydymdeimlad gydag Alun, Sioned a gweddill y teulu. Diolchwn amdani.

# TUDALEN YR URDD

## Trip Uwchradd yr Urdd i Drayton Manor Pasg 2002

Ar ddydd Mercher, 10 Ebrill trefnwyd trip ar gyfer disgyblion blynyddoedd 7 ac 8 Ysgolion Glantaf, Bro Morgannwg a Phlasmawr i Drayton Manor. Cafwyd ymateb da gyda llond bws o ddisgyblion o'r tair ysgol yn mynd ar y trip. Cawsom dywydd braf a llawer o hwyl. Dyma lun o rai o'r merched.





## Cymorth ariannol i Eisteddfod yr Urdd

Bydd y babell wyddoniaeth yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni yn cael ei noddi gan gwmni dosbarthu trydan De Cymru – Western Power Distribution (WPD).

Bydd y babell wyddoniaeth yn cynnwys nifer o arddangosfeydd diddorol gan gynnwys offer o'r ganolfan wyddoniaeth boblogaidd i blant , Techniquest. Hefyd bydd cystadlaethau drwy gydol yr wythnos er mwyn dangos bod dysgu am wyddoniaeth yn gallu bod yn ddiddorol a chyffrous. Meddai Phil Davies, rheolwr gwasanaethau rhwydwaith WPD yng Nghymru: "Mae WPD yn falch o gael y cyfle i gefnogi'r ŵyl sy'n rhan mor bwysig o galendr pobl ifanc Cymru."

Ychwanegodd Siân Eirian , cyfarwyddwraig yr Eisteddfod: "Mae gwyddoniaeth a thechnoleg yn chwarae rhan bwysig yn yr Eisteddfod ac rydym yn falch iawn o dderbyn y gefnogaeth yma gan WPD".

## Trip Cynradd yr Urdd i Lego Land Pasg 2002

Wythnos gyntaf gwyliau'r Pasg trefnwyd trip ar gyfer aelodau Cynradd Caerdydd a'r Fro i Lego Land yn Windsor. Aeth bws deulawr llawn i Windsor am y dydd a chael amser gwych. Gwelir uchod lun o'r plant yn mwynhau yn y parc.






## Ysgol Bêl-droed yr Urdd

Trefnwyd Ysgol Bêl-droed eto eleni yn ystod gwyliau'r Pasg ar gyfer disgyblion Cynradd y Sir. Trefnwyd sesiwn bore ar y dydd Llun, Mawrth a Mercher i blant blynyddoedd 1 a 2 a sesiwn prynhawn ar gyfer disgyblion blynyddoedd 3, 4, 5 a 6. Cafwyd ymateb gwych gyda dros 100 yn mynychu'r sesiynau yn ddyddiol. Dyma luniau rhai o'r bechgyn

## Enillwyr Y Sir yn Eisteddfod Celf, Dylunio a Thechnoleg 2002

Bydd y gwaith canlynol yn cael ei arddangos ar Faes yr Eisteddfod ym Mhabell CDT

| | |
|---|---|
| Gwaith Creadigol 3D Bl 12 a 13 | 1af Owen Gower, Glantaf |
| Crochenwaith Bl 9 | 3ydd Jack Burton, Glantaf |
| Cywaith Crochenwaith Bl 5 a 6 | 1af Grŵp Pencae |
| | 3ydd Grŵp Bro Eirwg |
| Gwaith Creadigol 3D dan 25 oed | 1af Lois Hughes, Glantaf |
| | 2il Lois Hughes, Glantaf |
| Gwaith Creadigol 3D Bl 7, 8 a 9 | 1af Siân Fouladi, Glantaf |
| Argraffu Oedran Bl 2 ac iau | 3ydd Beth Williams, Creigiau |
| Caligraffeg Bl 5 a 6 | 3ydd Sara Evans, Radur |
| Caligraffeg Bl 10 ac 11 | 2il Rebecca Barratt, Plasmawr |
| | 3ydd Sian Coodye, Plasmawr |
| Pypedau Blwyddyn 7 ac 8 | 3ydd Eleri Jones, Glantaf |
| Gwaith Creadigol 2D Bl 9 + | 3ydd Mathew Wilson, Plasmawr |
| Gwaith Creadigol 2D Bl 12 a 13 | 1af Tomos Lewis, Glantaf |
| Argraffu ar ffabrig Bl 10 ac 11 | 1af Zoe Knight, Glantaf |
| Gwaith Creadigol 3D Bl 7 ac 8 | 2il Sara Williams, Glantaf |
| Gwaith Creadigol 3D Bl 10 ac 11 | 1af Heulwen Rees, Plasmawr |
| Gweu (â llaw) Bl 3 a 4 | 2il Morgan Harries, Y Wern |
| Gweu (â llaw) Bl 10 ac 11 | 1af Zoe Knight, Glantaf |
| Print du a gwyn Bl 2 ac iau | 2il Thomas Andrews, Sant Curig |
| Cyfres o brintiau du a gwyn Bl 2 ac iau | 1af Jacob Briscombe, Sant Curig |
| Cyfres o brintiau du a gwyn Bl 3, 4, 5 a 6 | 1af Geraint Herbert, Creigiau |
| Gemwaith Bl 10 ac 11 | 1af Joanne Barry, Glantaf |
| Dylunio a Thechnoleg Bl 10 ac 11 | 3ydd Rebecca Thomas, Plasmawr |
| Creu Arteffact Bl 10 ac 11 | 3ydd Hywel Tyler, Glantaf |

## AR Y BOCS 2002 MAE CYFRES DALENT S4C, 'AR Y BOCS' YN EDRYCH AM FWY O DALENT!

A oes gennych chi dalent perfformio arbennig? Ydych chi wrth eich bodd yn canu a dawnsio i gynulleidfa neu o flaen drych yn eich ystafell wely? Mae 'Ar y Bocs' yn edrych am dalentau newydd o bob oed i gystadlu yn y gyfres newydd. Byddwn yn cynnal gwrandawiadau yng Nghaerdydd dros y misoedd nesaf.

Am fwy o fanylion, cysylltwch â ni AR FRYS:
Ar y Bocs, Al Fresco, 44 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9WJ
Ffôn: 02920 726726. E-bost: alfresco@alfrescotv.com
Yn gywir
Meinir Mai Jones.

# Ysgol Uwchradd Cathays



Cynhaliwyd Eisteddfod lwyddiannus eto eleni yn Ysgol Uwchradd Cathays i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Cafwyd cystadlu brwd a llongyfarchiadau i Rachel Leonard ar ennill y Gadair. Braf oedd cael cwmni Miss Mair Davies, cyn ddirprwy brifathrawes yr ysgol, yn ôl yn ein plith. Llongyfarchiadau hefyd i ddisgyblion niferus yr ysgol ar eu perfformiadau yn Eisteddfod Sir yr Urdd.

# C.R.I.C.C.

Er mai siomedig fu tymor rygbi'r tîm cenedlaethol, nid felly y bu ar CRICC ers symud i safle newydd a defnyddio meysydd clwb CHSOB yn yr Eglwys Newydd.

Hyd yn hyn nid yw'r tîm dan 8 wedi colli gêm, ac ar 24 Mawrth, yng Ngŵyl Caerdydd a'r Fro, syfrdanwyd pawb - yn cynnwys Rhodri Mears, yr hyfforddwr, wrth i dîm CRICC gyrraedd y rownd derfynol allan o 14 o dimoedd, gan roi gêm glos iawn a cholli o 4 cais i 3 yn y ffeinal.

Carfan tîm dan 9 (gyda diolch i Ian Ephraim a Geraint Pugh)
Owen Ephraim; Jac Hopkins; Sam Lipetz-Robic (Mynydd Bychan); Osian Long; Fergus O'Kane; Rhys Patchell (Melin Gruffydd); Rhun Llewelyn (Pencae) Tomos Waring (Pwll Coch) Owen Davies; Siôn Mullane; Jac Shuffley; David Young (Y Wern)

## Taith CRICC i Brest

Dyma'r pedwerydd tro i CRICC dreulio penwythnos yn ystod gwyliau'r Pasg ar ymweliad â Chlwb Rygbi Prifysgol Brest. Roedd 22 o chwaraewyr a chynifer o gefnogwyr ar y daith.

Y tîm dan 13 chwaraeodd gyntaf gan brofi'n drech na'u gwrthwynebwyr, ac yn dipyn mwy o ran maint hefyd! Dangosodd Huw Day, Siôn James, Alun Morgan, Ifan Patchell a Daniel Phillips sgiliau o safon uchel. Roedd y gêm dan 14 yn dipyn mwy cystadleuol ond CRICC a orfu yn y diwedd, gyda help eilyddion o'r tîm iau. Sgoriwyd cais mwyaf dramatig y gêm gan Dafydd Rees.
Cafwyd taith arw yn ôl ar y fferi, ond gobeithio mai'r croeso, y cyfeillgarwch a'r llwyddiant a brofwyd gydol y penwythnos fydd yn aros yn y cof.
HYFFORDDI – DYFARNU – HELPU
Os ydych yn gallu helpu plîs ffoniwch: 029 2084 2811 neu 029 2055 3500.

## Y Border Bach

**gan Hwn a Hon**



Mae mis Mai yn amser pan fo'r wlad o'n cwmpas yn edrych yn wyrdd a ffres. Yn y gerddi hefyd mae'r tyfiant newydd yn edrych yn iach ac iraidd. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos yr hosta. Mae'r teulu yma o blanhigion parhaol yn cael eu tyfu am eu dail yn bennaf ac yn edrych ar eu gorau nawr wrth i'r blagur ymledu i'w lawn dwf. Maent yn hoffi tyfu mewn mannau llaith neu yn y cysgod felly gellwch ffeindio cornel addas iddynt mewn bron unrhyw ardd.

Mae amrywiaeth eang o fathau ar gael, rhai ond ychydig o fodfeddi ac eraill yn cyrraedd 3-4 troedfedd o uchder gydag amser. Mae lliw r dail yn amrywio o felyn-wyrdd fel y math "August Moon' hyd at lwydlas fel 'Hadspen Blue', gydag eraill ac ymyl o liw gwahanol. Mae un math gweddol newydd o'r enw 'Fire and Ice' â dail bron yn hollol wyn ac ymyl cul o wyrdd iddynt. Gall rhai fod â dail llyfn ac eraill yn drwchus a rhychiog.

Mae nifer ohonynt yn cynhyrchu blodau nes ymlaen cyn yr haf, coesyn hir a blodau fel trympedi neu glychau ar ei hyd mewn gwyn neu borffor ysgafn. Nid yw'r blodau'n drawiadol iawn ond maent yn ychwanegu at y planhigyn mewn cyfnod pan fo'r dail yn dechrau edrych yn hen a blinedig.

Anfantais fawr yr hostas yw bod y malwod yn eu cael yn flasus iawn, ac erbyn diwedd yr haf gallwch fod â mwy o dyllau nag o ddail! Mae yna ffyrdd o geisio goresgyn hyn. Os nad ydych yn hoffi defnyddio'r pelenni bach glas yna, rhowch raean neu blisgyn wy o gwmpas y dail yn gynnar yn y tymor. Nid yw'r malwod yn hoffi ymlusgo dros wyneb garw i chwilio am eu bwyd. Gellwch hefyd dyfu'r hosta mewn pot a rhoi rhimyn o "vaseline' o gwmpas yr ymyl i wneud pethau'n anodd i'r falwen! Hefyd, mae rhai mathau o hosta yn llai tebyg o gael eu bwyta – y rhai â dail trwchus, rhychiog (mwy o waith cnoi arnynt efallai!). Enghraifft dda yw un o'r enw 'Sum and Substance'. Fe dyfais hwn mewn pot llynedd heb i un twll ymddangos ynddo drwy'r haf.

Yr amser gorau i rannu clympiau sy'n rhy fawr neu wedi marw yn y canol yw'r gwanwyn cynnar wrth i'r blagur ddod i'r golwg. Yna fe fydd gennych blanhigion newydd i'w plannu mewn llecyn arall neu i rannu â'ch cyfeillion yn nhraddodiad gorau y border bach.

## Ar y CYD...

yng ngofal Lynne Davies

Roeddwn i'n edrych ar y gath yn gorwedd ar y llawr neithiwr a meddwl bod rhaid iddi hi ac i finnau golli pwysau. Er hynny, mae'n anodd esbonio i gath pam rydych chi'n rhoi llai o fwyd iddi gan mai un o'i phleserau mwya'n y byd yw bwyta. Ac rwy'n gallu uniaethu â'r teimlad hwn – rwy'n eithaf hoff o'm bwyd fy hunan! Ond dyma'r adeg i ddod â'r beic a'r sgidiau rhedeg allan, a dechrau bwyta salad a ffrwythau yn lle bwyd trwm y gaeaf.

Os ydych chi'n ferch ac am gael ymarfer corff a chefnogi achos da, beth am ymuno â 'Ras Bywyd' ar noson y 10fed o Orffennaf ym Mharc Bute. Mae'r holl arian yn mynd i ymchwil cancr – a does dim rhaid ichi redeg yr holl ffordd! (Os ydych chi eisiau mwy o wybodaeth cewch edrych ar www.raceforlife.co.uk ar y Rhyngrwyd).

Mae'r haf 'ma yn arbennig, wrth gwrs, achos bod Steddfod yr Urdd yng Nghaerdydd. Peidiwch â cholli'r cyfle i ymweld â hi. Bydd llawer o hwyl, rwy'n siŵr. Beth am wirfoddoli i stiwardio – ffoniwch 2080 3350 os oes diddordeb 'da chi. Does dim rhaid ichi siarad Cymraeg yn rhugl. Fe wela'i chi yno!

Cyn imi fynd, hoffwn ddymuno pob llwyddiant i bawb sy'n sefyll arholiadau yn ystod y misoedd nesaf.

**Geirfa**

uniaethu – *to empathise*
cefnogi – *to support*
ymchwil – *research*
Rhyngrwyd – *Internet*
yn rhugl - *fluently*
dymuno – *to wish*
llwyddiant – *success*
arholiadau - *exams*

## BWRDD YR IAITH GYMRAEG - GWOBRAU DYLUNIO DWYIEITHOG NEWYDD I'R IFANC

Mae Bwrdd yr Iaith yn galw dylunwyr ifanc ledled Cymru i gystadlu am Wobrau Dylunio Dwyieithog 2002. Noddwyd y wobr gan Ddylunio Cymru.

Mae dau gategori, sef disgyblion chweched dosbarth a myfyrwyr colegau Uwch a Phellach. Gofynnir i'r cystadleuwyr ddarlunio delwedd gyfoes o Gymru ar boster A4 a fydd yn hybu Cymru fel cyrchfan i bobl ifanc dan 25 oed.

Cyhoeddir enwau'r enillwyr mewn seremoni arbennig fis Gorffennaf nesaf. Y dyddiad cau yw 31 Mai 2000.

Am fwy o wybodaeth, ffoniwch 02920 870000, neu drwy anfon e-bost at gwobrau@bwrdd-yr-iaith.org.uk


## GWOBRAU MENTER A BUSNES 2002

Mae'n bleser gennym gyhoeddi cynllun Gwobrau Menter 2002.
Gwobr Menter Cenedlaethol
Gwobr Menter Bro'r Eisteddfod
Gwobr Menter Twristiaeth
Gwobr Menter Pobl Ifanc

Am fanylion pellach a ffurflenni enwebu cysylltwch â ni drwy ffonio 01269 844486 neu ar e-bost at: delyth@menterabusnes.co.uk
Mae manylion hefyd ar wefan Menter a Busnes: www.menterabusnes.com

Dyddiad cau: 31 Mai 2002.
Yn gywir
Delyth Morris

www.s4c.co.uk



Dyn ar y Dibyn

# PEN TENNYN

**9.00PM**
**BOB NOS SUL**
YN DECHRAU 5 MAI
AILDDARLLEDIAD BOB NOS FAWRTH

**S4C**

CYFRES**NEWYDD**

---

**EISTEDDFOD YR URDD CAERDYDD A'R FRO**

Pwyllgor Treganna yn cyflwyno

## Noson yng nghwmni.....

abba *dream*



## GWESTY JURY'S, CAERDYDD

**Nos Wener Mai 31 2002**

**7.30pm**

Byffe, Ocsiwn a Disgo

Tocynnau: £22.50

GWISG FFANSI OS CHI MOYN!

Am docynnau: ~ Tel: 029 20236201

YR ELW TUAG AT YR EISTEDDFOD

---

Welsh Singers Competition
Cystadleuaeth i Gantorion Cymreig

Trefnir gan Cerdd Byw Cymru! mewn cydweithrediad â BBC Cymru
a gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru
Noddir gan Banc HSBC ccc.

**ROWND DERFYNOL y GYSTADLEUAETH**

**I GANTORION CYMREIG**

***Neuadd Dewi Sant, Caerdydd***

**Nos Llun 10 Mehefin 2002 am 7.25 y.h.**

**Yr enillydd i gynrychioli Cymru yng Nghystadleuaeth Canwr y Byd Caerdydd 2003**

Cantorion fydd yn ymddangos yn y rownd derfynol
**Elizabeth Donovan**
**Charlotte Ellett**
**Camilla Roberts**
**Mark Chaundy**
**Andrew Rees**

---

Tocynnau oddi wrth
Neuadd Dewi Sant, Yr Ais, Caerdydd CF10 1SH

**Rhif ffôn: 029 2087 8444**

Prifysgol Cymru
Aberystwyth
The University of Wales

Canolfan Addysg Barhaus
Centre for Continuing Education

# Yr Ysgol Haf Gymraeg

**yn Neuadd Pantycelyn, Aberystwyth**
**19 – 23 Awst 2002**
**(Preswyl neu Di-breswyl)**

# GOLWG AR LENYDDIAETH

**Darlithiau gan:**

Hywel Wyn Jones
Ifor ap Dafydd
Roger Owen
Meic Povey
Angharad Tomos
Emyr Llywelyn
Idris Reynolds



**Am fanylion pellach cysylltwch â'r Ganolfan**
**(Ffôn: 01970 621580)**

## Ffatri Fenter

### CYFLE GWYCH I WNEUD RHYWBETH GWAHANOL!

Cwmni sy'n cynorthwyo pob ifanc o dan 40 oed i gael blas o redeg busnes yw'r Ffatri Fenter. Rydym yn chwilio am berson brwdfrydig a mentrus i helpu cydlynu ein gwaith yn ardal Caerdydd a'r cylch.

**Os oes gyda chi:**

- Rywfaint o sgiliau cynllunio busnes neu brofiad o fentro yn fasnachol
- Sgiliau dwyieithrwydd cryf
- Rhwydweithiau/cysylltiadau da ymhlith pobl ifanc dan 40 yr ardal
- Car a thrwydded yrru

**... YNA CYSYLLTWCH Â NI!**

Am fwy o wybodaeth, neu sgwrs anffurfiol cysylltwch â Heledd Tomos ar 02920 647541 neu ebostiwch heledd@ffatrifenter.co.uk. Cewch wybodaeth bellach am y Ffatri Fenter ar ein safle gwe.

Gwnewch gais drwy anfon llythyr a CV at Heledd Tomos, Menter a Busnes, Cwrt y Castell, 6 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ cyn Dydd Gwener 3ydd o Fai 2002.

WDA

Menter a Busnes
www.ffatrifenter.com

**AEGIS YMGYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL CYF**

*Am gyngor ariannol annibynnol cysylltwch â*

## Geraint B. Llewelyn

MLIA (DIP)

**291 FFORDD CYNCOED, CYNCOED, CAERDYDD, CF23 6PA**
**FFÔN: (029) 20228223 FFACS: (029) 20761309**
E-bost: aegis-ifa@supanet.com

AELOD O DBS RHEOLAETH ARIANNOL CCC
A ORUCHWILIR GAN AWDURDOD BUDDSODDI PERSONOL

## TRYDANWR

gyda dros 20 mlynedd o brofiad

Ailweirio, gosod systemau larwm a chawodydd

*PRISIAU RHESYMOL*

Ffoniwch
**Caerwyn Davies**
ar **029 20868208**
neu **07967 558664**